


# Canllawiau Rheoli Adeiladu

## Adeiladau a gwaith sydd wedi'u heithrio

**Nod y canlynol yw rhoi gwybodaeth i chi am ystafelloedd haul, cynteddau, garejys ac estyniadau ac adeiladau bach eraill sydd wedi'u heithrio rhag gofynion y Rheoliadau Adeiladu.**

Mae'r Llywodraeth yn ystyried y gellir eithrio rhai adeiladau rhag gofynion rheoli adeiladu. Fel arfer, adeiladau yw'r rhain y byddai'n rhy feichus cymhwyso'r rheoliadau iddynt, ac yn yr achosion hyn, cewch adeiladu heb ganiatâd yr Adran Rheoli Adeiladu.

Hyd yn oed os yw'ch cais wedi'i eithrio rhag y Rheoliadau Adeiladu, mae'n bosibl y bydd angen Caniatâd Adeiladu, Caniatâd Adeilad Rhestredig neu Ganiatâd Ardal Gadwraeth mewn perthynas ag ef. Rhaid gwneud cais gwahanol am y rhain a chewch gyngor gan yr Adran Rheoli Datblygu Cynlluniau (rhif ffôn: 01352 703 234 neu ewch i [www.siryfflint.gov.uk/cynllunio](http://www.siryfflint.gov.uk/cynllunio)).



### Legend

Porth ceir

Cyntedd

Adeilad bach ar wahân

Adeilad mawr ar wahân

Ystafell haul

## Ystafell haul

Rhaid i arwynebedd llawr ystafell haul fesur llai na  $30\text{m}^2$ , rhaid ei chodi ar y llawr daear ac ni chewch ei defnyddio fel lle i gysgu, cegin nac ystafell fyw. Rhaid cadw'r drysau a'r ffenestri presennol, rhaid defnyddio gwydr diogelwch ym mhob rhan o'r ystafell fel y nodir yn nogfen N isod.

## Cyntedd

Rhaid i gyntedd fod yn adeilad un llawr, a chanddo arwynebedd llawr sy'n mesur llai na  $30\text{m}^2$ , ni chewch roi toiled na draeniau ynddo. Rhaid defnyddio gwydr diogelwch mewn unrhyw ddrws neu ffenestr fel y nodir yn nogfen N, a rhaid cadw drws presennol yr annedd.

## Porth ceir

Rhaid ei godi ar y llawr daear, a rhaid sicrhau nad yw arwynebedd y llawr yn mesur mwy na  $30\text{m}^2$  a rhaid i'r porth ceir fod ar agor ar o leiaf ddwy ochr.


## Llwybr dan do

Rhaid i arwynebedd y llawr fod yn llai na  $30\text{m}^2$  a rhaid ei adeiladu ar y llawr daear.


## Lleoliadau allweddol ar waliau allanol a mewnol

■ Rhaid gosod gwydr diogelwch yma ■ Llawr daear

### Drysau a phaneli ochr



### Ffenestri



## Adeilad mawr ar wahân

Rhaid iddo fod yn adeilad un llawr, a chanddo arwynebedd llawr sy'n mesur llai na  $30\text{m}^2$ . Ni chaiff gynnwys lle i gysgu. Ni chewch ddefnyddio deunyddiau hylosg os yw'n cael ei godi o fewn 1m i'r terfyn.

## Adeilad bach ar wahân

Ni chaiff arwynebedd y llawr fod yn fwy na  $15\text{m}^2$ . Cewch ei osod ar y terfyn os oes angen, ond ni chaiff gynnwys ystafell gysgu.

## Ffenestri newydd

Os ydych yn cyflogi adeiladwr neu gwmni ffenestri sydd wedi'u cofrestru â FESNA, ni fydd angen Cymeradwyaeth Rheoli Adeiladu.

## Adeiladau dros dro

Adeilad nad oes bwriad iddo aros lle y mae am fwy na 28 diwrnod.

## Gosodiadau Trydanol Domestig Sefydlog

Os ydych yn cyflogi trydanwr neu gwmni trydanol sydd wedi cofrestru ag un o'r cynlluniau Hunanardystio, nid oes angen Cymeradwyaeth Rheoli Adeiladu.

- » EC Certification Limited
- » NICEIC Group Limited
- » British Standard Institution
- » NAPIT Registration Limited
- » Association of Plumbing and Heating Contractors (Certification) Limited
- » Oil Firing Technical Association Limited

## Adeiladau a reolir o dan ddeddfwriaeth aral

- » Unrhyw adeilad sy'n cael ei adeiladu'n unol â Deddf Ffrwydron 1875 a 1923(a).
- » Unrhyw adeilad (ac eithrio adeilad sy'n cynnwys annedd neu adeilad a ddefnyddir fel swyddfa neu ffreutur) a godir ar safle y mae angen trwydded ar ei gyfer o dan Deddf Gosodiadau Niwclear 1965(b)
- » Adeilad sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr o gofebion a gaiff eu cynnal a'u cadw o dan adran 1 o Ddeddf Henebion a Mannau Archaeolegol 1979(c).

## Adeiladau nad yw pobl yn eu defnyddio

Adeilad ar wahân:

- » nad yw pobl yn mynd i mewn iddo fel arfer; neu
- » y bydd pobl yn mynd i mewn iddo'n anaml a bryd hynny, dim ond er mwyn archwilio neu gynnal a chadw offer neu beiriannau sefydlog.
- » Oni bai bod yr adeilad yn llai nag un metr a hanner ei uchder o:

- » unrhyw ran o'r adeilad y gall, ac y bydd, pobl yn mynd iddi fel arfer; neu
- » pwynt agosaf terfyn cwrtail yr adeilad hwnnw,
- » p'un bynnag yw'r agosaf.

## Tai gwydr ac adeiladau amaethyddol

1. Yn amodol ar baragraff 3, tŷ gwydr.
2. Adeilad a ddefnyddir, yn amodol ar baragraff 3, ar gyfer amaethyddiaeth, neu adeilad a ddefnyddir yn bennaf i gadw anifeiliaid, ar yr amod:
  - 3a. na chaiff unrhyw ran o'r adeilad ei defnyddio fel annedd.
  - 3b. nad oes unrhyw ran o'r adeilad yn llai nag un maint a hanner ei uchder o unrhyw ran o adeilad sy'n cynnwys lle i gysgu; a
  - 3c. bod allanfa dân yn yr adeilad nad yw dros 30 metr o unrhyw ran o'r adeilad.
4. Nid yw'r disgrifiadau o adeilad ym mharagraffau 1 a 2 yn cynnwys tŷ gwydr neu adeilad a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth os caiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer manwerthu, pecynnu neu arddangos.
5. Ym mharagraff 2, mae "amaethyddiaeth" yn cynnwys garddwriaeth, tyfu ffrwythau, tyfu planhigion i gael hadau a ffermio pysgod.

## Adeiladau atodol

Adeilad ar safle, nad oes bwriad ei ddefnyddio mewn perthynas â chael gwared ar adeiladau neu lain adeiladu ar y safle hwnnw.

Adeilad ar safle adeiladu neu waith peirianeg sifil y bwriedir ei ddefnyddio dim ond tra bydd y gwaith yn mynd rhagddo ac nad yw'n cynnwys lle i gysgu.

Adeilad, ac eithrio adeilad sy'n cynnwys annedd neu a gaiff ei ddefnyddio fel swyddfa neu ystafell arddangos, a godir i'w ddefnyddio ar safle sy'n gysylltiedig â mwynglawdd neu chwarel.